# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 6 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(112)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3 a 5 i 15. Cafodd cwestiynau 3 a 13 a chwestiynau 9 a 14 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 12 a 14 i 15. Atebwyd cwestiwn 4 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl.

### 3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**NDM5137**

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cerddwyr a gafodd eu hanafu neu eu lladd yn cynrychioli 21 y cant o nifer y bobl a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yng Nghymru yn 2011;

2. Yn cydnabod bod terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr wedi'u profi i fod yn fuddiol i leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd; a

3. Yn galw ar awdurdodau lleol i gynyddu nifer y parthau 20 milltir yr awr yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Losgi Gwastraff

Dechreuodd yr eitem am 15.50

**NDM5161 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-04-341: Llosgi Gwastraff, a osodwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 30 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Ofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Mark Isherwood)

Dechreuodd yr eitem am 16.44

**NDM5121 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mark Isherwood gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

**Tynnwyd y cynnig yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27.**

## Cyfnod Pleidleisio

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

## 6. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.22

**NDM5160 Nick Ramsay (Mynwy):**

Cyfrifiadura Perfformiad Uchel – Pweru arloesedd er lles economi Cymru

## 7. Dadl Fer – gohiriwyd o 23 Ionawr

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**NDM5145 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng – Y bygythiadau i ddiwydiant Cig Oen Cymru a'r angen i weithredu

Daeth y cyfarfod i ben am 18:10

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013**